



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2012 Rhif 724 (Cy.96)**

**2012 No. 724 (W.96)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

Rheoliadau Cymwysterau  
Athrawon Ysgol (Cymru)  
2012

The School Teachers'  
Qualifications (Wales) Regulations  
2012

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddeddfu darpariaethau yn Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004") gyda rhai darpariaethau diwygiedig yn Atodlen 2 ac, yn gyffredinol, maent yn diweddarau ychydig a gwneud rhai newidiadau drafftio bychain. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaethau arbed a throsiannol a diwygiadau canlyniadol.

These Regulations revoke and re-enact provisions of the Education (School Teachers' Qualifications) (Wales) Regulations 2004 ("the 2004 Regulations"), with some revised provisions in Schedule 2 and some updating and minor drafting changes generally. These Regulations also make saving and transitional provisions and consequential amendments.

Nid yw darpariaethau anarferedig Rheoliadau 2004 wedi eu hailddeddfu.

Obsolete provisions in the 2004 Regulations have not been re-enacted.

Mae rheoliad 4 yn dirymu Rheoliadau 2004 ac yn gwneud y darpariaethau arbed a throsiannol a nodir yn Atodlen 1.

Regulation 4 revokes the 2004 Regulations and makes the saving and transitional provisions set out in Schedule 1.

Mae rheoliad 5 ac Atodlen 2 yn pennu'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn i bersonau fod yn athrawon cymwysedig yng Nghymru a thrwy hynny yn derbyn statws athro cymwysedig.

Regulation 5 and Schedule 2 specify the requirements to be met before persons are qualified teachers in Wales and thus accorded qualified teacher status.

Mae rheoliad 6 yn darparu bod Gweinidogion Cymru neu Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn hysbysu personau penodol sydd yn bodloni'r gofynion yn Atodlen 2 o'r ffaith eu bod yn athrawon cymwysedig ac yn nodi'r dyddiad pan fydd yr hysbysiad hwnnw'n dechrau cael effaith.

Regulation 6 provides that the Welsh Ministers or the General Teaching Council for Wales are to notify certain persons who meet the requirements in Schedule 2 that they are qualified teachers and sets out the date from which such notification takes effect.

Mae rheoliad 7 yn galluogi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i achredu sefydliadau sy'n darparu cysiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol ac yn bodloni'r meini prawf a bennir gan Weinidogion Cymru.

Regulation 7 enables the Higher Education Funding Council for Wales to accredit institutions which provide courses of initial school teacher training and satisfy criteria specified by the Welsh Ministers.

Mae rheoliad 8 yn caniatáu i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth

Regulation 8 allows the Welsh Ministers to establish an employment based teacher training scheme which

sy'n galluogi personau i hyfforddi i fod yn athrawon tra bônt yn gyflogedig. O dan y cynllun, caiff personau eu hasesu gan sefydliadau achrededig er mwyn penderfynu os ydynt yn bodloni'r safonau penodedig heb hyfforddiant pellach. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar y cynllun, ac mae'n rhaid i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y cynllun roi ystyriaeth iddynt. Mae darpariaethau arbed yn Atodlen 1 yn darparu bod cynlluniau hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a sefydlwyd o dan Reoliadau 2004 yn parhau, er gwaethaf dirymu Rheoliadau 2004.

Mae rheoliadau 9 i 11 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliadau eraill gan roi cyfeiriadau at y Rheoliadau hyn, mewn rhai achosion, yn lle'r cyfeiriadau at Reoliadau 2004. Mae rheoliad 10 hefyd yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 i ddarparu y caiff asesiadau penodol eu cynnal gan sefydliadau achrededig.

enables persons to train to become teachers whilst employed. Under the scheme, persons may be assessed by accredited institutions to determine whether they meet the specified standards without further training. Guidance on the scheme may be issued by the Welsh Ministers, to which persons exercising functions under the scheme must have regard. Saving provisions in Schedule 1 provide for the employment based teacher training schemes established under the 2004 Regulations to continue despite the revocation of the 2004 Regulations.

Regulations 9 to 11 make consequential amendments to other regulations inserting references to these Regulations, in some cases in substitution for references to the 2004 Regulations. Regulation 10 also amends the Education (Induction Arrangements for School Teachers) (Wales) Regulations 2005 to provide that certain assessments may be carried out by accredited institutions.

**2012 Rhif 724 (Cy.96)**

**ADDYSG CYMRU**

**Rheoliadau Cymwysterau  
Athrawon Ysgol (Cymru)  
2012**

<i>Gwnaed</i>	<i>6 Mawrth 2012</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>8 Mawrth 2012</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>1 Ebrill 2012</i>

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 132, 145 a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(1) sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2), wedi ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 132(4) o'r Ddeddf honno, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 19 a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(3) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwysu**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2012.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**2012 No. 724 (W.96)**

**EDUCATION, WALES**

**The School Teachers'  
Qualifications (Wales) Regulations  
2012**

<i>Made</i>	<i>6 March 2012</i>
<i>Laid before the National Assembly for Wales</i>	<i>8 March 2012</i>
<i>Coming into force</i>	<i>1 April 2012</i>

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 132, 145 and 210(7) of the Education Act 2002(1) now exercisable by them(2), having consulted the General Teaching Council for Wales in accordance with section 132(4) of that Act, and in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 19 and 42(6) and (7) of the Teaching and Higher Education Act 1998 now exercisable by them(3) make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

1. The title of these Regulations is the School Teachers' Qualifications (Wales) Regulations 2012 and they come into force on 1 April 2012.

2. These Regulations apply in relation to Wales.

---

(1) 2002 p.32. Ystyr "Regulations" yn adrannau 132 a 145 yw rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler adran 212(1)). Mae diwygiadau i adran 145 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(3) 1998 p.30. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

---

(1) 2002 c.32. "Regulations" in sections 132 and 145 means regulations made by the National Assembly for Wales (see section 212(1)). There are amendments to section 145 not relevant to these Regulations.

(2) The functions of the National Assembly for Wales under these sections were transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(3) 1998 c.30. The functions of the Secretary of State under these sections were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

## Dehongli

### 3. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "academi" ("*academy*") yw ysgol annibynnol yn Lloegr y mae trefniadau academi yn gymwys iddi;

ystyr "addysgu" ("*teaching*") yw cyflawni gwaith o fath sydd wedi ei bennu gan reoliadau a wnaed o dan adran 133 o Ddeddf Addysg 2002(1) ac mae "addysgu" i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "coleg dinasol" ("*city college*") yw coleg technoleg dinasol neu goleg dinasol ar gyfer technoleg y celfyddydau;

ystyr "cyflogaeth" ("*employment*") yw cyflogaeth o dan gontract cyflogaeth neu gymryd person ymlaen i ddarparu gwasanaethau mewn modd heblaw o dan gontract cyflogaeth; ac mae cyfeiriadau at fod yn "gyflogedig" i'w dehongli'n unol â hynny;

mae "cyfnod sylfaen" ("*foundation phase*") i'w ddehongli yn unol ag adran 102 o Ddeddf Addysg 2002(2);

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru(3);

ystyr "Cynllun 2006" ("*the 2006 Scheme*") yw Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2006 a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Chwefror 2006(4) yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau 2004, fel y'i diwygiwyd gan Gynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth (Diwygio) 2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Tachwedd 2006(5);

ystyr "Cynllun 2011" ("*the 2011 Scheme*") yw Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2011 a wnaed gan Weinidogion Cymru ar 25 Awst 2011 yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau 2004(6);

- 
- (1) Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010, O.S. 2010/2710 (Cy.227), yw'r rheoliadau sydd mewn grym ar yr adeg y gwnaed y Rheoliadau hyn.
  - (2) Diwygiwyd adran 102 gan Fesur Dysgu a Medrau (Cymru) 2009 (mccc 1), adran 47 a Mesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5), adran 21.
  - (3) Mae adran 8 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30) yn darparu ar gyfer sefydlu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru drwy Orchymyn, ac mae O.S. 1998/2911 yn cyfeirio ato.
  - (4) 2006 Rhif 8.
  - (5) 2006 Rhif 74.
  - (6) 2011 Rhif 32.

## Interpretation

### 3. In these Regulations—

"the 1982 Regulations" ("*Rheoliadau 1982*") means the Education (Teachers) Regulations 1982(1);

"the 1989 Regulations" ("*Rheoliadau 1989*") means the Education (Teachers) Regulations 1989(2);

"the 1993 Regulations" ("*Rheoliadau 1993*") means the Education (Teachers) Regulations 1993(3);

"the 1999 Regulations" ("*Rheoliadau 1999*") means the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) Regulations 1999(4);

"the 2004 Regulations" ("*Rheoliadau 2004*") means the Education (School Teachers' Qualifications) (Wales) Regulations 2004(5);

"the 2006 Scheme" ("*Cynllun 2006*") means the Employment Based Teacher Training Scheme 2006 made by the National Assembly for Wales on 24 February 2006(6) pursuant to regulation 8 of the 2004 Regulations, as amended by the National Assembly for Wales Employment Based Teacher Training Scheme (Amendment) 2006 on 15 November 2006(7);

"the 2011 Scheme" ("*Cynllun 2011*") means the Employment Based Teacher Training Scheme 2011 made by the Welsh Ministers on 25 August 2011 pursuant to regulation 8 of the 2004 Regulations(8);

"academy" ("*academi*") means an independent school in England to which academy arrangements relate;

"academy arrangements" ("*trefniadau academi*") has the meaning given by section 1 of the Academies Act 2010(9);

- 
- (1) S.I. 1982/106, amended by S.I. 1988/542 and 1989/329. S.I. 1982/106 was revoked by S.I. 1989/1319.
  - (2) S.I. 1989/1319, amended by S.I. 1989/1541, 1990/1561, 1991/1134, 1991/1840, 1991/2240 and 1992/1809. S.I. 1989/1319 was revoked by S.I. 1993/543 with transitional savings.
  - (3) S.I. 1993/543, amended by S.I. 1997/368, 1997/2679 and 1998/1584. S.I. 1993/543 was partially revoked in relation to Wales by S.I. 1999/2817 (W.18) with the remaining provisions being revoked by S.I. 2000/2419 and S.I. 2000/2906 (W.186).
  - (4) S.I. 1999/2817 (W.18), amended by S.I. 2002/1663 (W.158), 2002/2938 (W.279), 2003/140 (W.12), 2003/2458 (W.240), 2004/1729 (W.173), 2004/1744 (W.183), 2004/2733 (W.240) and 2010/1142 (W.101).
  - (5) S.I. 2004/1729 (W.173), amended by S.I. 2007/2811 (W.238), 2008/215 (W.26) and 2010/1142 (W.101).
  - (6) 2006 No.8.
  - (7) 2006 No.74.
  - (8) 2011 No.32.
  - (9) 2010 c.32.

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw'r cynllun a ddisgrifir yn rheoliad 8 neu'r cynlluniau a ddisgrifir ym mharagraffau 3 i 5 o Atodlen 1 pan fo'r cyd-destun yn mynnu hynny;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn Lloegr" ("*employment-based teacher training scheme in England*") yw cynllun a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan reoliadau a wnaed o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002 lle y caiff person ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol athrawon er mwyn ennill statws athro cymwysedig tra bo'n gyflogedig i addysgu;

ystyr "Rheoliadau 1982" ("*the 1982 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1982(1);

ystyr "Rheoliadau 1989" ("*the 1989 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1989(2);

ystyr "Rheoliadau 1993" ("*the 1993 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1993(3);

ystyr "Rheoliadau 1999" ("*the 1999 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(4);

ystyr "Rheoliadau 2004" ("*the 2004 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004(5);

ystyr "safonau penodedig" ("*specified standards*") yw'r safonau sy'n gymwys ar adeg yr asesiad a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro fel y safonau y mae gofyn i bersonau sy'n ceisio dod yn athrawon cymwysedig eu bodloni;

ystyr "safonau penodedig yn Lloegr" ("*specified standards in England*") yw'r safonau sy'n gymwys ar adeg yr asesiad fel a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dro i dro fel y safonau y mae gofyn i bersonau sy'n ceisio ennill statws athro cymwysedig yn Lloegr eu bodloni;

"accredited institution" ("*sefydliad achrededig*") means an institution accredited by the Higher Education Funding Council for Wales under regulation 7;

"accredited institution in England" ("*sefydliad achrededig yn Lloegr*") means an institution approved or accredited as a provider of courses or programmes of initial school teacher training in England under regulations made by the Secretary of State under section 132 of the Education Act 2002;

"city college" ("*coleg dinasol*") means a city technology college or a city college for the technology of the arts;

"the Council" ("*y Cyngor*") means the General Teaching Council for Wales(1);

"employment" ("*cyflogaeth*") means employment under a contract of employment or the engagement of a person to provide services otherwise than under a contract of employment; and references to being "employed" are to be construed accordingly;

"employment-based teacher training scheme" ("*cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth*") means the scheme described in regulation 8 or where the context so requires the schemes described in paragraphs 3 to 5 of Schedule 1;

"employment-based teacher training scheme in England" ("*cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn Lloegr*") means a scheme established by the Secretary of State under regulations made under section 132 of the Education Act 2002 whereby a person may undertake initial teacher training in order to obtain qualified teacher status while being employed to teach;

"foreign institution" ("*sefydliad estron*") means any institution other than a United Kingdom institution;

"foundation phase" ("*cyfnod sylfaen*") is to be construed in accordance with section 102 of the Education Act 2002(2);

---

(1) O.S. 1982/106, a ddiwygiwyd gan O.S. 1988/542 a 1989/329. Dirymwyd O.S. 1982/106 gan O.S. 1989/1319.

(2) O.S. 1989/1319, a ddiwygiwyd gan O.S. 1989/1541, 1990/1561, 1991/1134, 1991/1840, 1991/2240 a 1992/1809. Dirymwyd O.S. 1989/1319 gan O.S. 1993/543 gydag arbedion trosiannol.

(3) O.S. 1993/543, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/368, 1997/2679 a 1998/1584. Dirymwyd O.S. 1993/543 yn rhannol o ran Cymru gan O.S. 1999/2817 (Cy.18) gyda'r darpariaethau a oedd ar ôl yn cael eu dirymu gan O.S. 2000/2419 ac O.S. 2000/2906 (Cy.186).

(4) O.S. 1999/2817 (Cy.18), a ddiwygiwyd gan O.S. 2002/1663 (Cy.158), 2002/2938 (Cy.279), 2003/140 (Cy.12), 2003/2458 (Cy.240), 2004/1729 (Cy.173), 2004/1744 (Cy.183), 2004/2733 (Cy.240) a 2010/1142 (Cy.101).

(5) O.S. 2004/1729 (Cy.173), a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/2811 (Cy.238), 2008/215 (Cy.26) a 2010/1142 (Cy.101).

---

(1) Section 8 of the Teaching and Higher Education Act 1998 (c.30) provides for the establishment of a General Teaching Council for Wales by Order and S.I. 1998/2911 refers.

(2) Section 102 was amended by the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1), section 47 and the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5), section 21.

ystyr "sefydliad" ("*institution*") oni bai bod y cydestun yn mynnu fel arall, yw sefydliad o fewn y sector addysg bellach neu sefydliad o fewn y sector addysg uwch;

ystyr "sefydliad achrededig" ("*accredited institution*") yw sefydliad wedi ei achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan reoliad 7;

ystyr "sefydliad achrededig yn Lloegr" ("*accredited institution in England*") yw sefydliad wedi ei gymeradwyo neu ei achredu fel darparwr cyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol yn Lloegr o dan reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002;

ystyr "sefydliad estron" ("*foreign institution*") yw unrhyw sefydliad ac eithrio sefydliadau yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "sefydliad yn y Deyrnas Unedig" ("*United Kingdom institution*") yw sefydliad a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig, heblaw am un sydd yn, neu'n ffurfio rhan o sefydliad lle y mae'r prif sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu'n gysylltiedig â sefydliad o'r fath;

mae i "trefniadau academi" yr ystyr a roddir i "academy arrangements" gan adran 1 o Ddeddf Academiâu 2010(1);

ystyr "ysgol" ("*school*") yw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol neu ysgol arbennig nas cynhelir felly; ac

mae cyfeiriadau at yr ail gyfnod allweddol, y trydydd cyfnod allweddol neu'r pedwerydd cyfnod allweddol i'w dehongli yn unol ag adran 103 o Ddeddf Addysg 2002(2).

"institution" ("*sefydliad*") means, unless the context otherwise requires, an institution within the further education sector or an institution within the higher education sector;

"school" ("*ysgol*") means a school maintained by a local authority or a special school not so maintained;

"specified standards" ("*safonau penodedig*") means the standards applying at the time of assessment specified by the Welsh Ministers from time to time as the standards required of persons who seek to become qualified teachers;

"specified standards in England" ("*safonau penodedig yn Lloegr*") means the standards applying at the time of assessment as specified by the Secretary of State from time to time as the standards required of persons who seek to achieve qualified teacher status in England;

"teaching" ("*addysgu*") means carrying out work of a kind which is specified by regulations made under section 133 of the Education Act 2002(1) and "to teach" is to be construed accordingly;

"United Kingdom institution" ("*sefydliad yn y Deyrnas Unedig*") means an institution established in the United Kingdom, other than one which is, or is affiliated to or forms part of, an institution whose principal establishment is outside the United Kingdom; and

references to the second, third or fourth key stages are to be construed in accordance with section 103 of the Education Act 2002(2).

## **Dirymu a darpariaethau arbed a darpariaethau trosiannol**

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Rheoliadau 2004 wedi eu dirymu.

(2) Bydd y darpariaethau arbed a'r darpariaethau trosiannol yn Atodlen 1 yn cael effaith.

## **Statws Athro Cymwysedig**

5. Yn ddarostyngedig i reoliadau 11, 12, 13 a 14 o Reoliadau 1999, mae personau yn athrawon cymwysedig os ydynt yn bersonau a grybwyllir—

---

(1) 2010 p.32.

(2) Diwygiwyd adran 103 gan Fesur Dysgu a Medrau (Cymru) 2009 (mccc 1), adran 47 a Mesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5), adran 21.

## **Revocation and saving and transitional provisions**

4.—(1) Subject to paragraph (2), the 2004 Regulations are revoked.

(2) The saving and transitional provisions in Schedule 1 are to have effect.

## **Qualified Teacher Status**

5. Subject to regulations 11, 12, 13 and 14 of the 1999 Regulations, persons are qualified teachers if they are persons mentioned in—

---

(1) The regulations in force at the time these Regulations are made are the Education (Specified Work and Registration) (Wales) Regulations 2010, S.I. 2010/2710 (W.227).

(2) Section 103 was amended by the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1), section 47 and the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5), section 21.

- (a) ym mharagraffau 1 i 7 o Atodlen 2 sydd wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu'r Cyngor yn unol â rheoliad 6;
- (b) ym mharagraffau 8 i 10 o Atodlen 2—
  - (i) y mae Adran Addysg Taleithiau Guernsey wedi cyflwyno datganiad i Weinidogion Cymru neu'r Cyngor mewn cysylltiad â hwy, eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn un o'r paragraffau hynny; a
  - (ii) eu bod wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu'r Cyngor yn unol â rheoliad 6;
- (c) ym mharagraffau 4 i 10 o Atodlen 2 sydd yn athrawon cymwysedig yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o ran Lloegr o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002; neu
- (ch) ym mharagraffau 11 i 14 o Atodlen 2.

### Hysbysiad am statws athro cymwysedig

6.—(1) Rhaid i bersonau a grybwyllir ym mharagraffau 1 i 3 o Atodlen 2 gael eu hysbysu yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu'r Cyngor eu bod yn athrawon cymwysedig.

(2) Rhaid i bersonau a grybwyllir ym mharagraffau 4 i 7 o Atodlen 2 nad ydynt yn athrawon cymwysedig yn rhinwedd rheoliad 5(c) gael eu hysbysu yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu'r Cyngor eu bod yn athrawon cymwysedig.

(3) Rhaid i bersonau a grybwyllir ym mharagraffau 8 i 10 o Atodlen 2—

- (a) nad ydynt yn athrawon cymwysedig yn rhinwedd rheoliad 5(c) ar y sail nad ydynt yn athrawon cymwysedig yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o ran Lloegr o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002; a
- (b) y mae Adran Addysg Taleithiau Guernsey wedi cyflwyno datganiad i Weinidogion Cymru neu'r Cyngor mewn cysylltiad â hwy, eu bod yn bodloni'r gofynion a bennir yn un o'r paragraffau hynny,

gael eu hysbysu yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu'r Cyngor eu bod yn athrawon cymwysedig.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) i (9), mae personau sy'n derbyn hysbysiad ysgrifenedig o dan baragraffau (1), (2) neu (3) wedi cymhwyso o'r dyddiad hwnnw a ddarperir yn yr hysbysiad gan Weinidogion Cymru neu'r Cyngor.

(5) Yn achos personau a grybwyllir ym mharagraff 2 o Atodlen 2, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r Cyngor beidio â darparu bod y personau hynny yn athrawon cymwysedig o ddyddiad cyn y dyddiad y mae'r asesiad y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw yn cael ei gwblhau.

- (a) paragraphs 1 to 7 of Schedule 2 who have received written notification from the Welsh Ministers or the Council in accordance with regulation 6;
- (b) paragraphs 8 to 10 of Schedule 2—
  - (i) in respect of whom the States of Guernsey Education Department has submitted to the Welsh Ministers or the Council a statement that they satisfy the requirements specified in one of those paragraphs; and
  - (ii) who have received written notification from the Welsh Ministers or the Council in accordance with regulation 6;
- (c) paragraphs 4 to 10 of Schedule 2 who are qualified teachers by virtue of regulations made in relation to England under section 132 of the Education Act 2002; or
- (d) paragraphs 11 to 14 of Schedule 2.

### Notification of qualified teacher status

6.—(1) Persons mentioned in paragraphs 1 to 3 of Schedule 2 must be notified in writing by the Welsh Ministers or the Council that they are qualified teachers.

(2) Persons mentioned in paragraphs 4 to 7 of Schedule 2 who are not qualified teachers by virtue of regulation 5(c) must be notified in writing by the Welsh Ministers or the Council that they are qualified teachers.

(3) Persons mentioned in paragraphs 8 to 10 of Schedule 2—

- (a) who are not qualified teachers by virtue of regulation 5(c) on the grounds that they are not qualified teachers by virtue of regulations made in relation to England under section 132 of the Education Act 2002; and
- (b) in respect of whom the States of Guernsey Education Department has submitted to the Welsh Ministers or the Council a statement that they satisfy the requirements specified in one of those paragraphs,

must be notified in writing by the Welsh Ministers or the Council that they are qualified teachers.

(4) Subject to paragraphs (5) to (9), persons who receive written notification under paragraphs (1), (2) or (3) are qualified from such date as the Welsh Ministers or the Council provide in the notification.

(5) In the case of persons mentioned in paragraph 2 of Schedule 2, the Welsh Ministers or the Council must not provide for such persons to be qualified teachers from a date prior to the date on which the assessment referred to in that paragraph is completed.

(6) Yn achos personau a grybwyllir ym mharagraff 5 o Atodlen 2, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r Cyngor ddarparu y bydd y personau hynny yn athrawon cymwysedig o'r dyddiad y cwblhawyd y cwrs hyfforddiant cychwynol athrawon ysgol yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon yn llwyddiannus.

(7) Yn achos personau a grybwyllir ym mharagraff 6 o Atodlen 2, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r Cyngor ddarparu y bydd y personau hynny yn athrawon cymwysedig o'r dyddiad y maent yn cofrestru'n llawn fel athrawon ysgol gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

(8) Yn achos personau a grybwyllir ym mharagraff 7 o Atodlen 2, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r Cyngor ddarparu bod y personau hynny yn athrawon cymwysedig o'r dyddiad y maent yn cofrestru fel athrawon ysgol gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

(9) Yn achos personau a grybwyllir ym mharagraffau 8 i 10 o Atodlen 2 rhaid i Weinidogion Cymru neu'r Cyngor beidio â darparu y bydd y personau hynny yn athrawon cymwysedig o ddyddiad cyn y dyddiad y maent yn cwblhau cyfnod o wasanaeth fel athrawon sy'n drwyddedig gan Adran Addysg Taleithiau Guernsey fel a bennir yn natganiad Adran Addysg Taleithiau Guernsey.

### Sefydliadau Achrededig

7.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru achredu sefydliad fel darparwr cyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynol athrawon ysgol.

(2) Dim ond os yw'n bodloni'r meini prawf hynny a gaiff eu pennu gan Weinidogion Cymru o dro i dro y caiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru achredu sefydliad.

(3) Caiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru dynnu achrediad sefydliad yn ôl yn unol â'r meini prawf hynny a gaiff eu pennu gan Weinidogion Cymru o dro i dro.

(4) Cyn pennu meini prawf o dan baragraffau (2) a (3) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

### Cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth

8.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru sefydlu cynllun lle y caiff personau sydd yn gyflogedig neu wedi cael eu cyflogi mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion<sup>(1)</sup>) ddod yn athrawon cymwysedig.

(6) In the case of persons mentioned in paragraph 5 of Schedule 2, the Welsh Ministers or the Council must provide for such persons to be qualified teachers from the date of successful completion of the course of initial school teacher training in Scotland or Northern Ireland.

(7) In the case of persons mentioned in paragraph 6 of Schedule 2, the Welsh Ministers or the Council must provide for such persons to be qualified teachers from the date of full registration as school teachers with the General Teaching Council for Scotland.

(8) In the case of persons mentioned in paragraph 7 of Schedule 2, the Welsh Ministers or the Council must provide for such persons to be qualified teachers from the date of registration as school teachers with the General Teaching Council for Northern Ireland.

(9) In the case of persons mentioned in paragraphs 8 to 10 of Schedule 2, the Welsh Ministers or the Council must not provide for such persons to be qualified teachers from a date prior to the date on which they completed the period of service as teachers licensed by the States of Guernsey Education Department as specified in the statement of the States of Guernsey Education Department.

### Accredited Institutions

7.—(1) Subject to paragraph (2), the Higher Education Funding Council for Wales may accredit an institution as a provider of courses or programmes of initial school teacher training.

(2) The Higher Education Funding Council for Wales may only accredit an institution that satisfies such criteria as may be specified by the Welsh Ministers from time to time.

(3) The Higher Education Funding Council for Wales may withdraw the accreditation of an institution in accordance with such criteria as may be specified by the Welsh Ministers from time to time.

(4) Before specifying criteria under paragraphs (2) and (3) the Welsh Ministers must consult the Higher Education Funding Council for Wales.

### Employment-based teacher training scheme

